**Cofndion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron gynhaliwyd nos Lun, Ionawr 10fed 2022 yn Neuadd Y Rhiw**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Emlyn Jones, Gwenllian Hughes Jones, Wenda Williams, Dafydd Williams, Mari Evans, RJ Williams, Jaci Jones ac Iain Roberts

**Yn y gadair:** Y Cyng Nesta Roberts

**1)<u>Ymddiheuriadau a datgan diddordeb</u>:** Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cyng Geraint Jones

**<u>2)Cyhoeddiadau y cadeirydd</u>: Nid oedd gan y Cadeirydd gyhoeddiadau**

**3)Seddi gwag ar y Cyngor:** Adroddwyd fod cyngor wedi ei dderbyn gan Mel ab Owain o Unllais Cymru ynghylch absenoldeb y Cynghorydd Gareth Roberts o'r cyfarfodydd am chwe mis. Gan nad oes rheswm dros yr absenoldeb wedi ei drafod a'i dderbyn yn ystod y cyfnod o chwe mis, nid yw bellach yn aelod o'r Cyngor Cymuned. Mae'r clerc wedi hysbysu y Cynghorydd Gareth Roberts fod yr arweiniad yma wedi ei dderbyn, eglurodd y Cyng Roberts mai problemau diffyg clyw ydi y rheswm nad ydi o wedi bod yn mynychu y cyfarfodydd ac mae wedi ei chael yn anodd dilyn y trafodaethau. Roedd eisioes wedi dod i'r casgliad nad oedd ganddo ddewis ond sefyll i lawr.

Roedd Jacqueline Jones, sydd wedi datgan diddordeb yn un o'r ddwy sedd wag ar ward Aberdaron o'r Cyngor yn bresenol yn y cyfarfod ac fe'i derbyniwyd yn aelod o'r Cyngor. 'Roedd Tim Rosa hefyd wedi dangos diddordeb mewn ymuno â'r Cyngor ac wedi derbyn gwahoddiad i ymuno â'r cyfarfod ond ni dderbyniwyd ymateb ganddo, penderfynwyd anfon ato i holi os oes ganddo ddiddordeb ymuno â'r Cyngor i lenwi yr ail sedd wag.

Penderfynwyd anfon at y Cynghorydd Gareth Roberts i ddiolch iddo am ei wasanaeth i'r Cyngor am yr holl flynyddoedd.

**4)<u>Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed o Dachwedd 2021</u>:** Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

**5) <u>Materion yn codi o'r cofnodion</u>**

i)Ymateb y Peiriannydd Ardal Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd:

a)Mae'r draen ger Bryn Gwynt wedi cael sylw ond mae angen trwsio'r draen yn Bryn Eithin a chaiff sylw pan mae adnoddau ar gael.

b)Mae'r gwaith i atal dwr rhag hel ar y ffordd ger Dwyryd,Rhoshirwaun wedi ei roi ar raglen waith i'w flaenoriaethu a chaiff sylw pan mae adnoddau ar gael.

c)Mae llythyr gordyfiant yn cael ei anfon i berchennog Heather, Y Rhiw yn fuan.

ch)Adroddwyd fod arwyddion wedi'u gosod ger Rhydgaled, Nanhoron i wyro'r traffig am Efailnewydd er mwyn hysbysu'r traffig sydd yn dod o Ben Llŷn bod y ffordd ym Mhenrhos wedi cau. Roedd arwyddion ym Mynytho hefyd. Mae'r Adran wedi paratoi cynllun rheolaeth traffig penodol ar gyfer arwyddo traffig ar adegau pan mae angen cau'r ffordd rhwng Llanbedrog a Pwllheli, fodd bynnag bwriedir adolygu'r trefniadau yn fuan, a bydd cyfle i ystyried yr angen am ychwaneg o arwyddion fel rhan o'r adolygiad hwnnw.

Pwysleisiodd yr aelodau ei bod yn bwysig cael arwydd yng ngwaelod allt Penrhiwdar i gyfeirio cerbydau i gyfeiriad Nanhoron, ac hefyd ym Mhenygroeslon.

d)Mae problem dwr ar y ffyrdd yn Nant Eiddon, Rhydlios, ger Blawdty, Pencaerau a Pencruga, Pen-y-groeslon wedi eu hadnabod ac fe gan sylw pan fydd adnoddau ar gael.

d)Mae y broblem o ddwr yn llifo i'r ffordd ger Groeslon, Y Rhiw yn mynd i gael sylw pan fydd adnoddau yn caniatau.

vii)Mae y gwyn nad ydi y goleuadau sydd yn fflachio yn gweithio ger Ysgol Crud y Werin yn gweithio wedi eu hanfon ymlaen i'r Gwasanaeth Trafnidiaeth gyda chais iddynt ymateb yn uniongyrchol.

**iv)Materion yr Eglwys Newydd:** Nid oes ateb wedi dod hyd yma gan yr Eglwys yng Nghymru. Adroddodd y Cadeirydd fod rhai ffynhonnellau grantiau wedi ymateb yn gadarnhaol i ymholiadau ynghylch y posibilrwydd o ariannu gwelliannau i'r eglwys. Penderfynwyd cysylltu gyda chwmni yswyriant y Cyngor gan fod y broblem o ddwr yn llifo i mewn i'r eglwys wedi gwaethygu yn dilyn y ddwy storm ddiweddar.

Mae pryder fod ymgymerwyr yn parhau i adael pridd yn y fynwent. Penderfynwyd y dylai llythyr gael ei anfon at yr ymgymerwyr yn eu hatgoffa o'r rheol eu bod i fynd a pridd dros ben o'r fynwent.
v)Safleoedd Llidiardau a Deunant: Derbyniwyd ymateb gan Carys Fôn Williams, Pennaeth Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd yn datgan fod bwriad i fynd ati i atgyweirio Tŷ'r Ysgol Deunant yn fuan fel y gellir ei osod i drigolion lleol sydd mewn angen o dŷ ar rent fforddiadwy. Mae gwaith cychwynnol hefyd yn digwydd ar safle cyn Ysgol Llidiardau yn y gobaith y bydd hyn yn galluogi y Cyngor i symud ymlaen i wneud cais cynllunio ar gyfer adeiladau tai fforddiadwy angen lleol yn y dyfodol agos.
vi)Meddygfa Rhydbach: 'Roedd cyfarfod rhwng staff y feddygfa a chynrychiolaeth o'r Cyngor i'w gynnal yn mis Tachwedd, ond gohirwyd y cyfarfod gan y feddygfa oherwydd amgylchiadau ac addawyd ail drefnu yn y flwyddyn newydd. Anfonwyd atebion i gwestiynau a anfonwyd gan y Cyngor ymlaen llawn yn ogystal. Nid oes dyddiad arall wedi ei dderbyn hyd yma a phenderfynwyd anfon at y feddygfa i atgoffa.
**vii)Canolfan Crud y Werin:** Derbyniwyd llythyr gan Sefydliad y Merched Aberdaron yn datgan pryder nad yw yr aelodau yn cael defnyddio y brif fynedfa i'r Ganolfan Gymdeithasol yn ystod eu cyfarfodydd. Mae'r gwres hefyd yn mynd i ffwrdd cyn diwedd y cyfarfodydd, roedd gofalwr y ganolfan wedi datgan fod y gwres yn cael ei reoli o swyddfa Cyngor Gwynedd yng Nghaernarfon.
Mae cynrhychiolwyr Sefydliad y Merched wedi cysylltu gyda pennaeth yr Ysgol ac Adran Addysg Cyngor Gwynedd ond mae'r problemau yn parhau.
Datganwyd yn y llythyr fod aelodau Sefydliad y Merched yn deall y byddai Pwyllgor y Ganolfan Gymdeithasol yn arfer bodoli flynyddoedd yn ôl, ond aelodau o Gorff Llywodraethol y Ganolfan sydd yn rheoli y ganolfan rwan. Crêd yr aelodau y dylai aelodau o wahanol fudiadau yn y gymuned fod ar y pwyllgor.
Trafodwyd y gwyn ac roedd aleodau y Cyngor yn rhannu y pryderon yn enwedig ynghylch iechyd a diogelwch pan mae'r ganolfan yn cael ei defnyddio gan fudiadau, ac yn tynnu sylw at y ffaith fod cyfansoddiad pwyllgor y ganolfan wedi ei newid ac nad oedd y gynrhychiolaeth wreiddiol ar y pwyllgor wedi bod yn rhan o'r broses o greu y cyfansoddiad newydd. Penderfynwyd anfon at Adran Eiddo Cyngor Gwynedd i holi os oes copi o'r cyfansoddiad gwreiddiol yn eu meddiant.
**5) Gohebiaethau**
i)The Wilds, Aberdaron: Derbyniwyd copi o lythyr gan yr Adran Gynllunio at y Cyng Gareth Roberts yn egluro fod perchennog y Wilds wedi cyflwyno cais cynllunio (C21/0334/30/DT) i wneud addasiadau i'r fynedfa gerbydol ar y 1 Ebrill 2021. Gwrthodwyd y cais hwnnw ar y 16 Mehefin 2021. Y bwriad oedd cychwyn achos llys ar ddiwedd cyfnod apelio y penderfyniad ddod i ben, sef 6 mis o ddyddiad y gwrthodiad. Cyflwynodd y perchennog gais pellach (C21/0600/30/DT) ar y 22 Mehefin 2021. Gwrthodwyd y cais yma ar y 7 Hydref 2021, ac mae ganddo 6 mis i apelio'r penderfyniad o'r dyddiad yma.
Pe byddai'r Cyngor yn dwyn erlyniad llys cyn i'r cyfnod apelio'r penderfyniad ddod i ben, dydi y swyddog ddim yn credu y byddai'r llysoedd yn edrych yn ffafriol ar unrhyw achos gan y Cyngor, gan y byddai y Cyngor i bob pwrpas yn gofyn i'r llysoedd ei ddarganfod yn euog o beidio cydymffurfio a gofynion rhybudd gorfodaeth, a hynny cyn ei fod yn cael cyfle i ystyried pob opsiwn sydd yn agored iddo. Os byddai yn apelio'r penderfyniad cynllunio, ac yn ennill ei achos, yna byddai'r penderfyniad apêl yn gorchfygu unrhyw rybudd gorfodaeth sydd eisioes mewn grym.
Dan yr amgylchiadau, nid oes dewis ond disgwyl i'r cyfnod apelio ddod i ben, ac wedyn cychwyn achos yn y llysoedd yn dilyn hynny.
ii)Llythyr parthed diffodd offer diheintio uwchfioled, gwaith trin carthffosiaeth Aberdaron: Er gwybodaeth
iii)Trafeilwyr ar dir Bodffordd Rhoshirwaun - derbyniwyd llythyr gan y Cyng Gwenllian Hughes-Jones wedi ei gyfeirio at adrannau cynllunio, llygredd a trwyddedu Cyngor Gwynedd

yn mynegi pryderon ynghylch trafeilwyr sydd yn byw mewn cerbydau ar y safle. Mae'r aelodau yn rhannu y pryderon ac yn siomedig na dderbyniwyd ymateb gan adrannau y Cyngor i'r gwyn. Penderfynwyd anfon at yr adrannau, ynghyd ag at Cyfoeth Naturiol Cymru i ofyn am ymateb mor fuan a phosibl.
iv)Llythyr gan Gyngor Cymuned Llanbedrog at Brif weinidog Cymru yn mynegi pryder parthed llifogydd ar yr A499 ym Mhenrhos: Penderfynwyd cefnogi y llythyr.
**6)Adrodd yn ôl o gyfarfod AHNE Llŷn:** Derbyniwyd adroddiad gan y Cyng Wenda Williams (cynrhychiolydd y Cyngor ar y pwyllgor). Eglurodd fod y cynllun Awyr Dywyll yn parhau i fynd ymlaen a bod 'Bws Fflecsi' newydd yn weithredol yn yr ardal, gan ddarparu yr un gwasanaeth â'r Bws Arfordir a arferai gludo teithwyr ar y penrhyn gan O Ddrws i Ddrws.
**7) <u>Cynllunio</u>**
C21/1120/30/HY: Spar, Aberdaron - Arwydd goleuedig yn gysylltiedig a pheiriant arian newydd i'w osod ar flaen yr adeilad: Dim gwrthwynebiad
C21/1226/30/DT: Grepach, Uwchmynydd - Estyniad unllawr ochr: dim gwrthwynebiad
C21/1234/30/DT Lleoliad / Location: Tŷ Tan Y Fron, Anelog: Codi dau estyniad unllawr: Gwrthwynebu ar sail nad ydi y datblygiad yn gweddu i fwthyn traddodiadol. Mae rhwystr wedi ei greu i lwybr troed, gan greu perygl i gerddwyr yn dilyn dymchwel adeiladau allannol hynafol a phwysig o ran hanes yr ardal.
**8)Praesept 2022-23:** Cyflwynwyd cyllideb wedi ei rhagdybio ar gyfer y flwyddyn ariannol yn seiliedig ar gostau blynyddol arferol y Cyngor, hefyd cyfwynwyd taenlen yn dangos incwm a gwariant hyd yma yn y flwyddyn ariannol gyfredol ynghyd a balansau cyfrifon ariannol y Cyngor.
Nodwyd fod cryn swm o arian wrth gefn gan y Cyngor, ond rhagwelir fod costau sylweddol i drwsio to yr Eglwys Newydd gan ei fod yn prysur ddirywio a dwr yn dod i mewn i'r adeilad. Mae cael grantiau digon sylweddol i gwblhau y gwaith yn anodd gan nad ydi defnydd yr eglwys yn ffitio o fewn criteria y mwyafrif o gyllidwyr.
Hefyd, mae'r Cyngor yn ymwybodol y bydd angen estyniad i'r fynwent yn y dyfodol gweddol agos.
O ganlyniad, teimla'r aelodau fod angen yr arian yma sydd wrth gefn ar gyfer cynnal yr eglwys a'r fynwent.
Penderfynwyd cadw y praesept yr un fath ar gyfer 2022-23, sef £15,000.
**9)Ariannol**
**Taliadau**
Iwan Hughes: £186.29 (cyflog Rhagfyr)
Iwan Hughes: £186.09 (cyflog Ionawr)
HMRC (Paye): £46.40 (Rhagfyr)
HMRC (Paye) £46.60 (Ionawr)
Cradur.com: £33
ICO: £35 (diogelu data, talwyd trwy d/d)
Nesta Roberts: £12 (CCTV trwy S/O, Rhagfyr)
Nesta Roberts: £12 (CCTV trwy S/O, Ionawr)
Neuadd Y Rhiw: £15 (cyfarfod)
HSBC: £5.80 (ffioedd)
**Derbyniadau**
GD Roberts: £210 (claddu llwch Anthony walsh)
HMRC: £8,279.04 (ad-daliad TAW)
**10) <u>Materion ffyrdd a llwybrau</u>**
i)Mae mynedfa newydd wedi ei hagor gyferbyn a Gors, Anelog sydd yn arwain at bryder ynghylch gwelediad ynghyd a phryder y bydd dwr yn llifo i'r ffordd trwy'r bwlch newydd.
ii)Mae tyllau yn y ffordd ger Nant y Gadwen, Y Rhiw, rhwng Nant Eiddon a Methlem, a rhwng Tŷ Rhos a Pen Rhos, Rhoshirwaun.
iii)Eglurodd y Cyng Emlyn Jones fod giat ger y gamfa ar y llwybr o Benarfynydd i Fynydd y Graig ond erbyn hyn mae tenant y tir wedi rhoi tsiaen a chlo arni gan fod y ddyfais i agor y giat wedi torri. Y fantais o gael giât ydi fod pobl fethedig yn gallu mwynhau y llwybr gan ei fod yn wastad, bellach ni all pobl gyda anabledd gerdded y llwybr oherwydd na allant fynd

trwy y giat. Penderfynwyd tynnu sylw Rhys Roberts, Swyddog Llwybr yr Arfordir at y mater yma.
iv)Mae dau gwter yn Anelog angen sylw, un ger mynedfa fferm Anelog, a'r llall ger Ty'n Anelog.
v)Mae baw ci ar y llwybr sy'n arwain o ben gallt y pentref i ochr Porth Samddai o'r traeth. Penderfynwyd gofyn os oes posib cael bin ger y giat sydd yn arwain i'r llwybr. Hefyd mae y tir wedi llithro ar waelod y trac sydd yn arwain at y wal fôr sydd yn ei gwneud yn anaddas i bobl fynd i lawr i'r traeth, ac yn beryglus.
vi)Penderfynwyd holi Bleddyn, y Swyddog AHNE pryd mae'r arwydd 'Aberdaron' ar y ffordd i lawr i'r pentref o gyfeiriad Penycaerau yn mynd i gael ei ail osod.
vii)Mae arwydd a osodwyd ger stâd Bro Hywyn yn ystod y cyfnod clo yn edrych yn flêr ger yr arwydd AHNE Llŷn ger Bro Hywyn. Penderfynwyd gofyn i Bleddyn os fedr yr adran ei symud oddi yno.
viii)Mae gwifrau BT wedi disgyn rhwng Dynfra a pen lôn Tŷ Isaf, ac maent yn beryglys.
ix)Mae 'railings' wedi eu clymu yn sownd wrth y 'railings' ar ben y wal rhwng wal y fynwent a'r traeth, gofynwyd eisioes i'r railings gael eu trwsio gan eu bod yn beryglus. Penderfynwyd anfon at y Swyddog Morwrol.
x)Mae'r coed prifets rhwng Teras, Rhoshirwaun a'r ffordd wedi tyfu tua troedfedd i'r ffordd, mewn rhan o'r B4413 sydd eisioes yn gul.
xi)Penderfynwyd rhoi £100 o gyfraniad i'r Grwp Twristiaeth tuag at gostau rhoi y goeden Nadolig ar dir y Gegin Fawr - mae bwriad gan y Grwp Twristiaeth roi cyfraniad i'r Gegin fawr am ddefnyddio y tir a'r trydan.
xii)Mae'r hysbysfwrdd ym Mhentref Aberdaron yn flêr ac angen sylw - penderfynwyd gofyn i Bleddyn Jones os y gellir rhoi un newydd yn ei le, credir efallai mai yr adran AhnE a'i gosododd yn y lle cyntaf.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor, nos Lun, Chwefror y 14eg am 7.30 y.h yng Nghanolfan Deunant**